

CYFIAWNDER ADFEROL



FYDDECH CHI'N CWRDD Â'R PERSON
IFANC A LADDODD EICH MAB?
FE WNAETH DAVE.

BETH FYDDECH CHI'N EI WNEUD?

Pe byddech yn cael cyfle i gwrdd â'r person fu'n bwrghera eich tŷ neu a wnaeth eich mygio, beth fydddech chi'n ei wneud?

Dychmygwch eich bod yn gallu siarad yn uniongyrchol â rhywun sydd wedi cyflawni trosedd yn eich erbyn. Dychmygwch eich bod yn cael cyfle i ofyn y cwestiynau pwysig hynny a chlywed beth sydd ganddynt i'w ddweud. Dychmygwch eich bod yn gallu dweud wrthynt pa effaith y mae'r trosedd wedi ei gael arnoch chi, eich bywyd a'ch teulu.

Mae rhai pobl yn cael y syniad o gwrdd neu gysylltu â'r person a gyflawnodd drosedd yn eu herbyn yn un rhyfedd. Ond mae llawer o ddioddefwyr troseddau wedi dewis cwrdd â'r troseddwr drwy broses a elwir yn Gyfiawnder Adferol (CA).

"I mi, fe wnaeth cyfiawnder adferol droi'r drol a dydw i ddim yn teimlo fel dioddefwr mwyach. Fi sy'n rheoli erbyn hyn."

Merch i unigolyn a lofruddiwyd

Mae CA yn rhoi cyfle i ddioddefwyr esbonio i droseddwyr beth yw gwir effaith eu trosedd, i gael atebion i'w cwestiynau, ac weithiau i gael ymddiheuriad. Mae'n rhoi llais i ddioddefwyr a chyfle i chwarae rhan yn y gwaith o atal eraill rhag dod yn ddioddefwyr troseddau. Gall fod yn rhan o gywiro'r niwed a gall gynorthwyo'r dioddefwr i symud ymlaen.

Mae CA hefyd yn ffordd i droseddwyr wynebu eu gweithredoedd, deall yr effaith a gawsant ar eraill, a gwneud iawn, lle bo hynny'n bosibl. Yn y modd hwn, gall CA atal troseddwyr rhag aildroseddu.

"Cyfiawnder adferol oedd y trobwynt i mi. Pan sylweddolais yr effaith yr oedd fy nhroseddau yn eu cael ar bobl eraill, roeddwn yn teimlo cywilydd ac embaras."

Cyn-leidr

SUT MAE'N GWEITHIO

Mae CA yn wirfoddol i'r dioddefwr a'r troseddwr, ac ni fydd yn digwydd ond os bydd hwylusydd CA hyfforddedig yn penderfynu y byddai'n ddiogel ac yn addas.

Gellir cyflawni CA mewn gwahanol ffyrdd. Weithiau mae'n briodol i ddioddefwr a throseddwr gwrdd wyneb yn wyneb, dro arall mae modd cyfathrebu drwy basio negeseuon yn ôl ac ymlaen drwy hwylusydd hyfforddedig.

Y peth allweddol yw ei fod yn helpu'r dioddefwr a'r troseddwr.

Cyn y gellir cynnal cyfarfod:

- **rhaid** i'r troseddwr dderbyn cyfrifoldeb am y drosedd
- **rhaid** i'r dioddefwr a'r troseddwr fod yn fodlon cymryd rhan
- **rhaid** i hwylusydd CA benderfynu ei bod yn ddiogel i'r dioddefwr a'r troseddwr gymryd rhan yn y broses.

Bydd hwylusydd hyfforddedig yn paratoi'r dioddefwr a'r troseddwr cyn y cyfarfod ac yn ystod y cyfarfod bydd yn arwain y cyfranogwyr drwy sgwrs am y drosedd a'i effaith. Bydd y hwylusydd yn sicrhau bod y dioddefwr a'r troseddwr yn cael cyfle i siarad a bod y dioddefwr yn gyfforddus trwy gydol y cyfarfod.

Gellir defnyddio gweithgareddau CA ar gyfer unrhyw drosedd a gall ddigwydd ar unrhyw gam yn y broses gyfiawnder. Ymysg eraill, mae'r heddlu, y gwasanaethau prawf, mudiadau cymunedol, awdurdodau lleol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gyd yn darparu gwasanaethau CA.

Y [Cyngor Cyfiawnder Adferol](#) (elusen annibynnol) yw'r corff aelodaeth a gyfer ymarfer adferol. Mae ganddo aelodau ledled Cymru a Lloegr ac mae'n yn gosod y safonau cenedlaethol ar gyfer CA. Mae'r safonau hyn yn sicrhau diogelwch y rhai sy'n cymryd rhan mewn CA.

Mae'r [Cod Dioddefwyr](#) yn esbonio pa gefnogaeth a gwybodaeth y gall dioddefwyr troseddau eu disgwyl, o'r eiliad y byddant yn riportio'r trosedd i'r adeg pan fydd treial wedi gorffen, ac mae'n cynnwys hawl i bob dioddefwyr trosedd dderbyn gwybodaeth am CA.

CANFOD MWY

I ganfod mwy am CA, ymunwch â'r **ddadl 'Beth fydddech chi'n ei wneud?'** a gwyliwch storïau dioddefwyr sydd **wedi** cwrdd â'u troseddwr mewn cynhadledd CA.

I gael mwy o wybodaeth am wasanaethau CA yn eich ardal leol ewch i www.police.uk i gysylltu â swyddfa eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu lleol neu cysylltwch â'r Cyngor Cyfiawnder Adferol yn enquiries@restorativejustice.org.uk